

Is-ddeddfau Tyllu Croen

Hysbysiad o fwriad i fabwysiadu Is-ddeddfau ar gyfer Aciwbigo, Tatŵio, Lliwio Croen yn Lled-barhaol, Tyllu Cosmetig ac Electrolysis

Dyma hysbysiad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor), ar 23 Mawrth 2016, yn unol ag adran 14(7) ac adran 15(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (y Ddeddf) ac adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnig mabwysiadu'r Is-ddeddfau Model ar gyfer Aciwbigo, Tatŵio, Lliwio Croen yn Lled-barhaol, Tyllu Cosmetig ac Electrolysis (yr Is-ddeddfau).

Diben yr Is-ddeddfau yw gwneud yn siŵr bod y canlynol yn lân: mangreoedd sydd wedi eu cofrestru o dan adrannau 14(1) neu 15(1) o'r Ddeddf, neu o dan y ddwy adran hynny; ffitiadau mewn mangreoedd o'r fath; pobl sydd wedi eu cofrestru o dan adrannau 14(1) neu 15(1) o'r Ddeddf, neu o dan y ddwy adran hynny; a phobl sy'n eu cynorthwyo; ac er mwyn sicrhau bod offer, deunyddiau a chyfarpar sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad ag ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y mae hynny'n briodol, yn cael eu sterileiddio. Gwneir yr Is-ddeddfau hyn o dan bwerau a roddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

Bydd yr Is-ddeddfau Model yn caniatáu i'r Cyngor erlyn ymarferwyr sydd ddim yn cydymffurfio. O dderbyn collfarn, efallai byddai'r Llys yn gosod dirwy ac/neu yn atal neu'n canslo cofrestriad y person. Efallai byddai'r Llys hefyd yn atal neu'n canslo cofrestriad ei fangre fel na chât'r ymarferydd weithredu o'r fangre honno.

Bydd yr Is-ddeddfau newydd yn dod i rym ar 1 Mehefin 2016 a bydd yr is-ddeddfau ynghylch tyllu clustiau, tatŵio, aciwbigo ac electrolysis, sydd mewn grym ar hyn o bryd yn y Fwrdeistref, yn peidio.

Gwelwch Is-ddeddfau tyllu croen ([link](#))

Gwelwch yr hysbediad yn y papur newydd ([link](#))

Mae gwybodaeth am yr Is-ddeddfau ar gael ar wefan y Cyngor, sef www.rhondda-cynon-taf.gov.uk, neu drwy gysylltu â'r Garfan Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, Tŷ Elái, Trewiliam CF40 1NY drwy ffonio (01443) 425001 neu drwy anfon neges e-bost i Bwyd.IechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk. Bydd copi o'r Is-ddeddfau newydd hyn ar gael i'w darllen yn y cyfeiriad uchod.